# ASESIADAU EFFAITH LLAWN


## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gaiff ei gwblhau i flwch negeseuon e-bost CRIA@llyw.cymru

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau.

Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith y cytunwyd arno y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau. Dylid defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i lywio cyngor gweinidogol a rhaid iddo gael ei gwblhau cyn gwneud penderfyniad gweinidogol. Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid i'ch Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael ei gyhoeddi hefyd.

*Noder bod gennym Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant sefydledig, sy'n cynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, a Plant yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i drafod neu brofi eich Asesiad drafft. Cysylltwch â'r Gangen Plant CRIA@llyw.cymru am ragor o wybodaeth.*



*I gael rhagor o gyngor ac arweiniad ar broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, cyfeiriwch at y Llawlyfr Staff ar Hawliau Plant neu cysylltwch â'r Gangen Plant CRIA@llyw.cymru*

## 1. Amcanion polisi

Y cynnig yw cyflwyno Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025 drafft er mwyn darparu system o raddau arolygu ar gyfer darparwyr gwasanaethau cartrefi gofal (i oedolion a phlant) a darparwyr gwasanaethau cymorth cartref, gan ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr y gwasanaethau hyn arddangos graddau arolygu ar-lein ac ar y safle (gyda rhai eithriadau).

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") yn darparu'r fframwaith statudol i reoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae Adran 37 o Ddeddf 2016 yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch y graddau y gellir eu rhoi mewn perthynas ag ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth sydd wedi cael ei arolygu. Mae graddau arolygu yn adnodd cyffredin a ddefnyddir gan reoleiddwyr ledled y byd – h.y. Estyn, Safonau Bwyd, Comisiwn Ansawdd Gofal ac ati – a gallant fod yn ddull pwerus o ysgogi gwelliant ac yn ffordd o roi gwybodaeth i ddinasyddion am wasanaethau cyhoeddus. Bydd graddau yn galluogi pobl i gymharu ansawdd a diogelwch gwasanaethau a byddant yn meithrin diwylliant lle y caiff darparwyr gwasanaethau eu hannog i anelu at ragoriaeth yn hytrach na chydymffurfio yn unig. Mae'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025 ("y rheoliadau drafft") yn darparu gofynion ar gyfer system o raddau arolygu cyhoeddedig ar gyfer darparwyr gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref, a ddatblygwyd er mwyn cyflawni'r amcan a nodwyd yn y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r rheoliadau drafft yn ymdrin â thair agwedd ar y system – arddangos graddau arolygu, apelio yn erbyn graddau arolygu a throseddau.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Er mwyn paratoi ar gyfer y rheoliadau drafft i sefydlu system o raddau arolygu cyhoeddedig, treialodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) system o raddau arolygu 'mud' neu anghyhoeddedig rhwng mis Mehefin 2023 a mis Ebrill 2024. Cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol o'r cynllun peilot hwn, a gomisiynwyd gan AGC, rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2024 a chyhoeddwyd adroddiad gwerthuso a oedd yn asesu cysondeb AGC wrth gymhwyso graddau, yn ogystal â'r effaith ar ddarparwyr gwasanaethau a thimau arolygu. Ymgysylltodd yr ymchwilydd â phobl a'u teuluoedd a chafodd 9 ymateb, yr oedd un ohonynt yn ymwneud â phlant a phobl ifanc. Mae argymhellion y gwerthusiad sy'n nodi sut y gellir gwella'r graddau wedi cael eu hystyried a'u rhoi ar waith wrth baratoi i'r graddau gael eu cyhoeddi o fis Ebrill 2025.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad rhwng 29 Gorffennaf a 14 Hydref 2024, gan wahodd ymatebwyr i gyflwyno eu safbwyntiau drwy'r ffurflen ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post. Anfonwyd e-bost at amrywiaeth o randdeiliaid â diddordeb yn y cynigion i'w hysbysu

am yr ymgynghoriad, gan gynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc. Cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol ac yng nghylchlythyr AGC.

### 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad, fel y cawsant eu nodi yn yr adroddiad yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, wedi llywio'r ffordd rydym wedi ystyried y rheoliadau terfynol.

Ni fydd y gofyniad i arddangos y dystysgrif graddau yn gymwys i gartrefi gofal i blant. Er i nifer o ymatebion wrthwynebu'r agwedd hon ar y cynnig, nid yw'r rheoliadau drafft wedi cael eu diwygio gan nad yw'n gyson â'r bwriad polisi o sicrhau amgylchedd mwy cartrefol a theuluol mewn cartrefi gofal i blant. Gall darparwyr gwasanaethau cartrefi gofal i blant arddangos eu gradd o hyd os byddant yn teimlo bod hynny'n briodol. Bydd y radd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar eu gwefan (os oes ganddynt un) a bydd yn ofynnol i ddarparwyr sicrhau bod eu gradd arolygu ddiweddaraf ar gael ar gais. Nid yw AGC yn cyhoeddi adroddiadau arolygu fel mater o drefn ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal i blant ond mae'n darparu'r adroddiadau hyn ar gais. Rhaid cynnwys graddau arolygu mewn adroddiadau arolygu sy'n cael eu llunio gan AGC.

Wrth ddatblygu dull gweithredu'r polisi, rydym wedi ystyried yr adborth a gafwyd gan blant â phrofiad o fod mewn gofal fel rhan o adroddiad a gomisiynwyd gan AGC a gyflwynwyd gan Gomisiynwyr Ifanc Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant ynghylch yr hyn sy'n gwneud cartref gofal rhagorol. Y neges glir oedd y dylai edrych a theimlo fel cartref teuluol cyffredin. Fel rhan o'r gwaith o ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae effaith y polisi ar y plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi cael ei hystyried yn ofalus.

| Erthyglau neu Brotocol Dewisol CCUHP | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| Yr hawl i beidio â gwahaniaethu (erthygl 2) | X | | Mae ein cynigion wedi cynnwys esemptiad i'r gofyniad i arddangos graddau arolygu mewn cartrefi gofal i blant. Cafodd yr esemptiad hwn ei bennu ar sail adborth a gafwyd gan blant â phrofiad o fod mewn gofal fel rhan o adroddiad[1] ('yr adroddiad') a gomisiynwyd gan AGC i ganfod barn |

[1] Gwnaeth AGC gomisiynu Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant (y cyfeirir ato gan ddefnyddio'r talfyriad Saesneg 4Cs) i gasglu safbwyntiau eu Comisiynwyr Ifanc ynghylch yr hyn sy'n gwneud cartref gofal rhagorol yn seiliedig ar eu profiad bywyd. Mae'r adroddiad ar gael yma.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | plant a phobl ifanc ynghylch yr hyn sy'n gwneud cartref gofal rhagorol. |
| Ymrwymiad i les pennaf y plentyn (erthygl 3) | X | | Yn yr adroddiad, dywedodd y plant a'r bobl ifanc na ddylai cartref plant edrych yn wahanol i gartref teuluol unrhyw blentyn arall. |
| Yr hawl i gael eu clywed (erthygl 12) | X | | Nid yw'r dull gweithredu yn y rheoliadau yn cael effaith negyddol ar yr hawl i gael eu clywed. Yn yr adroddiad, dywedodd y plant a'r bobl ifanc nad ydynt am gael cartrefi sy'n edrych fel cartrefi plant ac nid oeddent am weld unrhyw arwyddion (corfforaethol) i ddangos mai cartref plant yw eu cartref, a all arwain at stigma cysylltiedig eu bod yn 'derbyn gofal'. |
| Erthygl 16 (yr hawl i breifatrwydd) | X | | Mae'r dull gweithredu yn y rheoliadau yn cynnal yr hawl i breifatrwydd. Yn yr adroddiad, dywedodd y plant a'r bobl ifanc nad ydynt am gael cartrefi sy'n edrych fel cartrefi plant ac nid oeddent am weld unrhyw arwyddion (corfforaethol) i ddangos mai cartref plant yw eu cartref, a all arwain at stigma cysylltiedig eu bod yn 'derbyn gofal'. |
| Erthygl 17 (yr hawl i wybodaeth) | X | X | Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau baratoi canllaw ysgrifenedig ar y gwasanaeth a all gynnwys gwybodaeth yn ymwneud |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | â'r radd arolygu. Mae'n rhaid i'r canllaw hwn ddefnyddio iaith, arddull, dull cyflwyno a fformat priodol, ac mae'n rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod pob unigolyn yn cael y cymorth sydd ei angen arno i ddeall y wybodaeth yn y canllaw. Gall darparwyr gwasanaethau cartrefi gofal i blant arddangos eu gradd o hyd os byddant yn teimlo bod hynny'n briodol. Bydd y radd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar eu gwefan (os oes ganddynt un) a bydd yn ofynnol i ddarparwyr sicrhau bod eu gradd arolygu ddiweddaraf ar gael ar gais. Nid yw AGC yn cyhoeddi adroddiadau arolygu fel mater o drefn ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal i blant ond mae'n darparu'r adroddiadau hyn ar gais. Rhaid cynnwys graddau arolygu mewn adroddiadau arolygu sy'n cael eu llunio gan AGC.<br><br>O dan y fframwaith rheoleiddiol ehangach, mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau baratoi canllaw ysgrifenedig ar y gwasanaeth a all gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r radd arolygu. Mae'n rhaid i'r canllaw hwn ddefnyddio iaith, arddull, dull cyflwyno a fformat priodol, ac mae'n rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod pob unigolyn yn cael y cymorth sydd ei angen arno i ddeall y wybodaeth yn y canllaw. |

## 4. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dylanwadu ar yr asesiad effaith rheoleiddiol, gan gynnwys effaith y rheoliadau ar y plant a'r bobl ifanc sy'n byw mewn cartref gofal. Mae crynodeb o'r adborth i'r ymgynghoriad ac adroddiad cyhoeddedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu cynnwys yn y cyngor gweinidogol. Yn seiliedig ar yr adborth o'r ymgynghoriad, penderfynodd y Gweinidog beidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r rheoliadau drafft. Mae ymateb i'r ymgynghoriad wedi cael ei gyhoeddi ac mae ar gael yma.

**5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

- *Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru.*

- *Dylid anfon adrannau 1 ac 8 o'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at y rheolwr gwe adrannol i'w cyhoeddi.*

- *Rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gwblheir i flwch negeseuon e-bost CRIA@llyw.cymru hefyd.*

Ar ôl iddynt gael eu cwblhau a'u cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, caiff adrannau 1 ac 8 o'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

**6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc**

Dylanwadwyd ar y dadansoddiad o'r effaith reoleiddiol gan adroddiad Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant (4Cs) (a gomisiynwyd gan AGC) a oedd yn ceisio barn ei Gomisiynwyr Ifanc ynghylch yr hyn sy'n gwneud cartref gofal rhagorol yn seiliedig ar eu profiad bywyd. Mae'r adroddiad hwn yn ganolog i'r Canllawiau ar gofrestru cartref gofal i blant yng Nghymru sy'n nodi'r arferion gorau i ddarparwyr gwasanaethau eu hystyried wrth sefydlu gwasanaeth cartref gofal i blant.

**7. Monitro ac Adolygu**

Caiff effaith y rheoliadau ei monitro ar y cyd ag AGC, y rheoleiddiwr gwasanaethau, pan fydd y system o raddau arolygu cyhoeddedig wedi cael ei rhoi ar waith yn llawn.